



**COFNODION HEB EU CADARNHAU CYFARFOD AGORED
BWRDD YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU
A GYNHALIWDYDD DDYDD IAU 4 MEHEFIN 2015, YN Y PENCADLYS,
LLANELWY A THRWY GYSWLLT FIDEOGYNADLEDDA Â THŶ VANTAGE
POINT, CWMBRAN**

**AELODAU'R BWRDD
YN BRESENNOL:**

Mick Giannasi	Cadeirydd y Bwrdd
Tracy Myhill	Prif Weithredwr
Emrys Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
Kevin Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol (drwy fideo gynadleda, Tŷ VP)
Pam Hall	Cyfarwyddwr Anweithredol
Judith Hardisty	Cyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad
John Morgan	Cyfarwyddwr Anweithredol
James Mycroft	Cyfarwyddwr Anweithredol
Patsy Roseblade	Cyfarwyddwr Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
David Scott	Cyfarwyddwr Anweithredol
Martin Woodford	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd

**CYNYRCHIOLWYR
BWRDD YR
YMDDIRIEDOLAETH:**

Nigel Heal	Cynrychiolydd ochr y staff
Melfyn Hughes	Swyddog Iaith Gymraeg
Lois Hough	Uwch Swyddog Cyfathrebu
Andrew Jenkins	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Meddygol a Chlinigol
Jonathan Jones	Ysgrifennydd Corfforaethol Cynorthwyol (Swyddfa'r Prif Weithredwr)
Steve Owen	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol
Bleddyn Roberts	Cynrychiolydd ochr y staff
Gordon Roberts	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Gweithrediadau (Gwasanaethau Meddygol Brys)
Dawn Sharp	Ysgrifennydd Corfforaethol
Nick Smith	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Gweithrediadau (Gwasanaethau Gofal Cleifion)
Jonathan Watts	Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni
Julie Winspear	Pennaeth Pryderon a Rheoli Busnes

YMDDIHEURIADAU

Mike Collins	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Mike Coupe	Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad
Sara Jones	Cyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio
Brendan Lloyd	Cyfarwyddwr Meddygol

34/15 CROESO A DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod yn cynnwys Mr Nick Smith i'w gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd. Atgoffodd yr aelodau fod y cyfarfod yn gyfarfod ychwanegol yn y rhaglen, a'r prif fwriad oedd cyflawni cyfrifoldeb y Bwrdd i arwyddo cyfrifon diwedd y flwyddyn. Am y rheswm hynny roedd rhai o'r eitemau sefydlog (e.e. stori'r claf, diweddariad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ac ati) sy'n ymddangos ar yr agenda yn arferol wedi eu hepgor a byddai lefel y drafodaeth ar eitemau eraill (e.e. yr adroddiad perfformiad) yn cael eu cyfyngu. Fodd bynnag, roedd nifer o faterion ychwanegol a gynhwyswyd yn yr agenda er hwylustod.

PENDERFYNWYD: Nodi'r diweddariad.

35/15 MATERION GWEITHDREFNOL

PENDERFYNWYD: Nodi'r datganiad sefydlog gan Mr Emrys Davies fel aelod wedi ymddeol o UNITE.

36/15 COFNODION PWYLLGORAU

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai'r eitem hon yn cael ei gohirio i gyfarfod nesaf y Bwrdd yng Ngorffennaf 2015 o gofio fod hwn yn gyfarfod ychwanegol ac nad oedd rhai o'r cofnodion i'w cyflwyno wedi eu cymeradwyo. Awgrymodd y Cadeirydd, yn y dyfodol, onibai fod Cofnodion Pwyllgorau wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor perthnasol ni ddylid eu cyflwyno gerbron y Bwrdd i'w cadarnhau.

PENDERFYNWYD: Gohirio'r eitem hon ac, yn y dyfodol, dim ond Cofnodion a gymeradwywyd gan y Pwyllgor perthnasol fyddai'n cael eu cyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

37/15 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Wrth gyflwyno'r adroddiad cynghorodd yr Ysgrifennydd Corfforaethol y Bwrdd ei bod yn ofynnol cyflwyno'r adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg erbyn 5 Mehefin 2015. Yn dilyn newidiadau a gytunwyd ynghylch llwybr materion y Gymraeg yng Ngweithgor y Cadeiryddion ar 7 Mai, cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion ar 14 Mai a gytunodd i ddirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Pwyllgor gymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i'r Bwrdd.

Cafodd yr aelodau drafodaeth faith lle buont yn ystyried gwahanol opsiynau i wella'r sefyllfa bresennol wrth symud ymlaen o ran y siaradwyr Cymraeg yn yr Ymddiriedolaeth, gan ganolbwyntio ar recriwtio. Gofynnwyd i'r Tîm Rheoli Gweithredol ystyried ymateb Comisiynydd y Gymraeg, ac unwaith y bo'i wedi'i dderbyn, byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r Ymddiriedolaeth.

Cyfeiriwyd at ystyried y Gymraeg fel rhan o'r fframwaith adolygu rotas gwaith. Cytunwyd fod angen mwy o eglurder ynghylch sut yr oeddynt yn ymdrin â hyn a dilysrwydd y datganiad. Roedd yr adroddiad wedi derbyn cefnogaeth Grŵp Gweithredu'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, a oedd wedi cymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

(1) cymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg;

- (2) yn dilyn derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg, fod y Tîm Rheoli Gweithredol yn ystyried cynllun gweithredu i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg yn yr Ymddiriedolaeth ac i hwn gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion i'w ystyried a'i fonitro'n barhaus; a
- (3) i'r Ysgrifennydd Corfforaethol ymateb i'r ymholiad ynghylch y fframwaith adolygu rotas ac ystyriaethau'r Gymraeg ac adrodd yn ôl fel rhan o'r diweddariad cofnodi gweithredoedd.

38/15 ADRODDIAD PERFFORMIAD INTEGREDIG

Amlinellodd y Prif Weithredwr waith parhaus y Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad wrth ddatblygu Adroddiad Perfformiad Integredig diwygiedig wrth fynd ymlaen. Nodwyd fod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn mynd i gael cyfle, yn ei gyfarfod nesaf, i ystyried ac adolygu'r adroddiad yn fwy manwl ar ei newydd wedd.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod perfformiad wedi bod yn gwella'n gyson fis ar ôl mis, a oedd yn rhoi boddhad arbennig. I'w nodi'n benodol oedd bod gwelliannau cyffredinol o ran perfformiad a hefyd lleihad amlwg yn y lefelau salwch ymhlith staff yn y Prosiect Chwilotwr Cwm Taf.

Croesawodd y Cadeirydd sylwadau gan yr Aelodau. Codwyd y pwyntiau isod:

- Roedd yr adroddiad yn dangos amrywiad enfawr yn y trosglwyddo i glirio ystadegau perfformiad, yn deillio o'r niferoedd isel iawn yn adroddwyd amdanynt.
- Yr oedd yn parhau'n ofynnol darparu mesurau a oedd yn symlach a mwy ystyrlon.
- Dylid cynnwys yr effaith gadarnhaol ar y perfformiad cyffredinol yn sgîl ymwneud Ymatebwr Cyntaf y Gymuned yn yr adroddiad.
- Bu'r Bwrdd yn ystyried y rhaglen recriwtio a chawsant eu sicrhau gan Gyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad y byddai trosiant staff bob amser yn arwain at swyddi gwag, ond fod ymgyrch recriwtio weithredol yn ei lle.
- Atgoffodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Meddygol a Chlinigol y Bwrdd am swyddogaeth y Grŵp Dysgu Sefydliadol, sef craffu, monitro a chynghori am unrhyw wersi a ddysgwyd o Ddigwyddiadau Andwyol Difrifol a Digwyddiadau Andwyol. Cydnabuwyd y byddai'r Grŵp Dysgu Sefydliadol yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion yn y dyfodol o ran gwersi a ddysgwyd.

PENDERFYNWYD:

- (1) nodi'r Adroddiad Perfformiad Integredig;
- (2) cynnwys y sylwadau uchod, lle bo'n briodol, yn yr adroddiad; a
- (3) bod y Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Meddygol a Chlinigol yn sicrhau fod y dysgu sefydliadol o'r Grŵp Dysgu Sefydliadol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion ar ôl pob cyfarfod y grŵp.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh y sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis un. Wrth gyflwyno'r adroddiad ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod y perfformiad alldro a adroddwyd am y flwyddyn hyd yma wedi ei seilio ar gyfrifon Mis 1 yr Ymddiriedolaeth a'i fod yn ddiffyg cadwedig o £0.438m.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh sylw'r Bwrdd at y meysydd a ganlyn yn yr adroddiad:

- Bu lleihad yng nghostau salwch gweithredol yn ystod yr un cyfnod y llynedd.
- Roedd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ariannu mentrau megis amser dwbl a goramser yn ei hymdrech barhaus i wella perfformiad.

Cynlluniau arbedion

O ran y cynlluniau arbedion sicrhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh yr Aelodau fod y cynlluniau wedi mynd trwy broses asesu risg ar lefel uchel a byddai'r Tîm Rheoli Gweithredol yn craffu arnynt yn fanwl cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Rhoddwyd sicrwydd pellach i'r Aelodau y byddai monitro cryno cynlluniau arbed arian yn parhau ar lefel y Bwrdd.

Dywedodd Martin Woodford Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau fod angen i'r Bwrdd gael sicrwydd fod y cynlluniau yn y cynllun yn gadarn a bod angen darparu manylion digonol i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, ar sail cynllun wrth gynllun, ynghylch sut y byddai'r cynlluniau'n cael eu cyflawni.

Bu'r Aelodau'n trafod y cynlluniau arbed arian yn fanylach, a chodwyd y pwyntiau a'r pryderon a ganlyn:

- Ar y cyd â'r cynlluniau arbed arian roedd yn ofynnol darparu tracio atodol yn erbyn unrhyw weithredoedd sy'n cael eu cyflwyno.
- Byddai ciplun ar ffurf graff/llwybr llithr yn dangos y cynllun arbed arian cyffredinol a phlotio yn dangos yr arbedion wrth iddynt fod yn ddyledus a ph'un ai ydynt yn cael eu cyflawni yn adeiladol ac o werth.
- Mynegwyd pryder nad oedd gan yr Ymddiriedolaeth gynllun ariannol priodol yn ei le ar gyfer y flwyddyn – rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh sicrwydd y byddai cynllun effeithiol yn ei le erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd.
- Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried dulliau amgen i wella perfformiad ac eithrio defnyddio darparwyr preifat a thalu amser dwbl/goramser.

Dywedodd y Cadeirydd fod rhagor o waith manwl yn ofynnol, a bod yr amser yn brin ar gyfer hyn, a'i bod yn hanfodol fod yr Ymddiriedolaeth yn glir iawn sut yr oedd yn mynd i fonitro arbedion a sut i ddangos y cynlluniau arbedion. Yng nghyfarfod Gorffennaf rhaid rhoi sicrwydd clir a chryno i'r Bwrdd o ran y cynllun arbedion wrth symud ymlaen. Ni ddylai'r Ymddiriedolaeth fynd y tu hwnt i Fehefin yn parhau i wario arian ar oramser ac ati heb gytundeb clir gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ynghylch y cyllido i'r dyfodol. Roedd angen cael cynllun amgen i sicrhau balans ariannol pe na bai'r Ymddiriedolaeth yn derbyn cytundeb i barhau â'i gwariant cyfredol. Mae angen cynnal y gwaith i ganfod dulliau amgen, ac eithrio'r trefniadau presennol sy'n bodoli, i wella perfformiad mewn modd cynaliadwy gynted ag y bo modd.

Dyweddod y Prif Weithredwr fod angen i'r Ymddiriedolaeth fod yn glir ynghylch pa weithredoedd a mesurau yr oedd yn mynd i'w dilyn er mwyn sicrhau cyllid wrth symud ymlaen. Ymhellach, cynghorodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod cyfres o gyfarfodydd lefel uchel i'w cynnal a fyddai'n cynnwys trafod y gwaith sylfaen, sut y gallai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei chyllid a beth fyddai'r strategaethau gadael ar gyfer rhai o'r cynlluniau arbedion.

Hefyd trafododd y Bwrdd yr amserlen o ran cytuno ar gynlluniau ariannol 2016/17 a 2017/18 a'r angen i ganiatáu amser digonol ar gyfer trafodaethau strategol, yn cynnwys asesu sut mae syniadau'r staff yn cael eu cynnwys i gefnogi'r cynlluniau wrth symud ymlaen.

Cyfalaf

Darparodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh drosolwg cryno o'r broses cymeradwyo a gwariant o ran cyfalaf disgrisiynol i'r Aelodau, ac ymatebodd i gwestiwn ynghylch y gwariant ar ysgrifbinau digidol a chynghorodd y byddai eglurhad ynghylch hynny yn cael ei ddarparu i Pam Hall, Cyfarwyddwr Anweithredol, ar ôl y cyfarfod.

Cynghorwyd y Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh fod yr Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer cerbydau a gyflwynwyd (ychydig dros £13m) wedi ei ystyried fel achos anfforddiadwy gan Lywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Ymddiriedolaeth leihau'r ffigur oddeutu 50% ac eisiau deall goblygiadau hyn petai'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud. Nid oedd unrhyw beth wedi ei gytuno ar y cam hwn, fodd bynnag, roedd yr effeithiau a'r risgiau'n cael eu mapio, ac un ohonynt oedd y byddai cerbydau'n cael eu hystemyn i gylch oes naw mlynedd.

Trafododd y Bwrdd y cynllun peilot dyfeisiau llaw a oedd yn cael eu dyrannu i Ymatebwyr Cyntaf y Gymuned. Roedd angen i'r Bwrdd fod yn glir o ran lledaenu defnydd y dyfeisiau llaw a chytunwyd cynnal rhagor o drafodaethau am hyn yn Sesiwn Gaeedig y Bwrdd i benderfynu ar y manylion wrth symud ymlaen.

Mynegwyd pryderon gan ochr y staff ynghylch gweithio mewn cerbydau naw oed, o bersbectif y staff a chleifion. Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh yn ymwybodol o'r effaith arwyddocaol a chynghorodd y byddai asesiadau risg yn cael eu cynnal a hysbysodd y Bwrdd fod cyfarfod â'r Comisiynydd wedi ei drefnu i drafod y mater. Cytunodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh i hysbysu'r Bwrdd am unrhyw gynnydd.

PENDERFYNWYD:

- (1) nodi'r sefyllfa ariannol ar gyfer Mis Un, a'r prif risgiau, materion a chyfyngiadau cysylltiedig o gofio ei bod yn Fis Un; a**
- (2) bod angen rhagor o waith ar y cynlluniau arbedion a gwelliannau i'r proffilau arbedion a fyddai'n cael eu monitro drwy'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau;**
- (3) bod angen gwaith rhagweithiol ar frys er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd o ran sut roedd yn mynd i ymdrin â'i sefyllfa cyllido/gwario presennol a bod hyn i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau gydag adroddiad yn ôl i'r Bwrdd yng Ngorffennaf;**
- (4) bod angen eglurder er mwyn penderfynu ar y cynllun wrth symud ymlaen o ran lledaenu'r defnydd o ddyfeisiau llaw gan Ymatebwyr Cyntaf y Gymuned;**
- (5) bod y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh yn darparu adroddiad pellach ar unrhyw gynnydd o ran y sefyllfa ynghylch yr Achos Cyfiawnhau Busnes Cerbydau; a**

- (6) **bod y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh yn ystyried amserlen cynhyrchu cynlluniau ariannol 2016-18, yn cynnwys ystyried awgrymiadau'r staff ynghylch arbedion yn y dyfodol.**

40/15 Y CYNLLUN INTEGREDIG TYMOR CANOLIG WEDI EI DDIWEDDARU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr esboniad cryno i'r Bwrdd ynghylch pam fod angen diweddaru'r cynllun, y gwaith a oedd yn ofynnol i wneud hynny a pha mor hir y byddai'n gymryd i gyflawni'r broses. Cyflwynwyd Jonathan Watts, Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni, gan y Prif Weithredwr a ddarparodd ragor o fanylion am y cynllun i sylw'r Bwrdd.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni y rhaglen a tynnodd sylw'r Bwrdd at yr wyth prif flaenoriaeth i'r Ymddiriedolaeth wrth symud ymlaen yn 2015/16 a oedd bellach yn adlewyrchu rhai o'r pwyntiau eglurder a gafwyd gan randdeiliaid mewnol ac allanol:

- Datblygu **strategaeth ymgysylltu â'r gymuned** a chynllun gweithredu i'n galluogi i ryngweithio â'r holl randdeiliaid perthnasol a hybu perchnogaeth y gwasanaeth gan y gymuned
- Cytuno ar, gwreiddio a chynnal **modelau clinigol** newydd yn y Gwasanaethau Meddygol Brys, y Gwasanaeth Cludiant Cleifion nad ydynt yn gleifion brys, a throsglwyddo o Galw Iechyd Cymru; sefydlu rôl yr Ymddiriedolaeth fel darparydd gofal iechyd a gwasanaeth clinigol yn hytrach na gwasanaeth cludiant yn unig
- Datblygu'r cynlluniau sy'n **cyflawni'r Cynllun Integredig Tymor Canolig yn Lleol** (Cynlluniau Cyflawni Lleol) gan leihau'r galw ar y gwasanaeth Ambiwlans, hybu dewis i gleifion a gwella ansawdd canlyniadau cleifion
- Datblygu a gweithredu **Cynllun Gwella Ansawdd** sy'n hyrwyddo gwell profiadau a chanlyniadau i gleifion/defnyddwyr gwasanaeth ac sy'n ffurfio asgwrn cefn yr agenda gweddnewid
- Datblygu **fframwaith gwasanaethau, gweithlu ac ariannol integredig**, sy'n darparu cynllun gweithlu ac ariannol cytbwys ar gyfer 2015/16 sy'n sicrhau sefydliadau diogel a fforddiadwy ac sy'n dangos gwerth am arian ac yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol parhaus
- Datblygu **fframwaith rheoli perfformiad** cadarn sy'n dangos atebolrwydd a thryloywder, sy'n bodloni anghenion yr Ymddiriedolaeth a Chomisiynwyr ac sy'n amserol ac yn ddigon manwl ar gyfer ystod o randdeiliaid y tu mewn a'r tu allan i'r Ymddiriedolaeth
- Datblygu **rhaglen trawsnewid y gweithlu a datblygu'r sefydliad** sy'n cyd-fynd â chyflawni'r Cynllun Integredig Tymor Canolig, ac sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei dyhead o fod yn sefydliad yn perfformio ar lefel uchel
- Cryfhau'r **seilwaith** sy'n ofynnol i gefnogi cyflawni e.e. fframwaith llywodraethu, strategaeth ystadau, gwybodeg iechyd

O ran cerrig milltir yn y flwyddyn, ac oherwydd yr amgylchedd dynamig y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio ynddo, byddai rhai o'r rhain yn symud yn anochel, fodd bynnag, byddai'r Ymddiriedolaeth bob amser mewn sefyllfa i gyfiawnhau'n glir pam fod y

symud hynny wedi digwydd.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni y Bwrdd at y diweddariad interim gwireddu buddion a chadarnhaodd y byddai yn ymddangos fel atodiad i'r cynllun yn fersiynau'r dyfodol.

Hysbyswyd yr Aelodau y byddai mewnwyd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi cyfle i staff gael gwybodaeth ynghylch cynnydd y Cynllun Integredig Tymor Canolig a hefyd fod grŵp gweithredu'r Cynllun Integredig Tymor Canolig wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiadau pellach wrth sicrhau cynnydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni am yr adroddiad clir, cryno a defnyddiol iawn a oedd wedi mynd i'r afael â'r materion a gyflwynwyd yn y cyfarfod blaenorol mewn modd ystyrlon ac adeiladol. Ychwanegodd fod hwn wedi bod yn enghraifft dda o bapur y dylai'r Ymddiriedolaeth ddysgu ohono.

Cydnabu'r Aelodau swm enfawr a natur gymhleth y gwaith a chroesawyd y ddogfen Cynlluniau ar Dudalen a oedd wedi cwmpasu'r rhan fwyaf o'r elfennau y disgwyliid eu dangos yn arferol.

Holodd yr aelodau gyfres o gwestiynau a atebwyd gan y Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni fel a ganlyn:

- O ran y buddiannau a mesur llwyddiant, roedd y rhain wedi eu hysgrifennu'n wreiddiol gan drawstoriad eang o'r gweithlu. Byddai gweithdy nesaf gweithredu'r Cynllun Integredig Tymor Canolig yn canolbwyntio ar ymarfer rheoli buddiannau gyda'r nod o fireinio'r buddion ystyrlon go iawn.
- Gan fod adnewyddu'r system Anfon Ambiwllansys drwy gymorth Cyfrifiadur (CAD) y tu hwnt i sgôp y cynllun byddai rhagor o waith yn cael ei wneud i egluro'r sefyllfa gyfredol.
- O ran risg yng nhermau rhyddhau staff i gyfrannu at brosiectau a sut roedd hyn yn cael ei reoli. Roedd rheolwyr yn ymwybodol o'r mater hwn ac roeddynt yn gweithio i leihau'r risg yn erbyn bwrw ymlaen â phrosiectau.
- Roedd angen eglurder absoliwt ynghylch a oedd datblygu llwybrau amgen yn sgôp y cynllun – cytunwyd y byddai'r eglurder hwn yn cael ei ddarparu yn fersiwn nesaf yr adroddiad.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr yr her enfawr yn y Cynllun Integredig Tymor Canolig a dywedodd y byddai'r cynnydd yn cael ei ddangos ar sail ailadroddol.

Dywedodd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn cydnabod yn gyffredinol fod yr Ymddiriedolaeth yn wynebu diffyg adnoddau o ran ei seilwaith canolog a oedd yn angenrheidiol ar gyfer gweithredu yn effeithiol.

Roedd angen rhagor o waith o ran y pryderon a fynegwyd gan y Comisiynydd ynghylch Adran Cyllid y cynllun a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei wneud gan y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd. Yn sgîl y pryderon hyn a fynegwyd gan y Comisiynydd nid oedd y Bwrdd mewn sefyllfa i gymeradwyo'r cynllun.

PENDERFYNWYD:

- (1) nodi'r cynnydd yn mirieinio'r Cynllun Integredig Tymor Canolig wedi ei ddiweddarau ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd a'r gweithredoedd i ymdrin â'r pwyntiau i'w hegluro;
- (2) y bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh yn gwneud rhagor o waith ar Adran Cyllid y cynllun;
- (3) y bydd yr adroddiad nesaf yn darparu eglurder o ran p'un ai yw datblygu llwybrau amgen yn sgôp y cynllun; a
- (4) nodi diolchiadau i Jon Watts a'i dîm am eu hymdrechion yn cynhyrchu adroddiad rhagorol.

41/15 CYMERADWYO CYFRIFON BLYNYDDOL, DATGANIAD LLYWODRAETHU a BARN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh yr adroddiad a adolygwyd ac y craffwyd arnynt gan y Pwyllgor Archwilio ac a oedd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

O ran y Datganiad Llywodraethu Blynyddol tynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh sylw'r Bwrdd at eitemau penodol y cyfeiriwyd atynt yn y Gofrestr Risg Corfforaethol.

Ymhellach, hysbysodd y Bwrdd fod hunan asesiadau'r Bwrdd yn erbyn y safonau Gofal Iechyd wedi gwaethygu a oedd oherwydd fod panel craffu diweddar wedi gwneud sylw fod yr Ymddiriedolaeth wedi barnu ei hun yn gadarnach eleni nag yn ystod blynyddoedd blaenorol. O ran y sicrwydd cyfyngedig a roddwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, esboniodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh yr egwyddorion sail y tu ôl i'w benderfyniad.

Cadarnhaodd David Scott, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, fod y cyfrifon wedi eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a bod eu safon yn rhagorol.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol, Datganiad Llywodraethu a Barn Archwilio Mewnol 2014/15.

42/15 ADRODDIAD ARCHWILIO'R DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh adroddiad i'r Bwrdd a dderbyniwyd gan archwilwyr allanol yr Ymddiriedolaeth, KPMG, yn nodi'r prif faterion yn deillio o'u gwaith archwilio datganiadau ariannol 2014/15, a chyflwyno llythyrau sylwadau a geisir fel arfer archwilio safonol gan Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG.

PENDERFYNWYD: Derbyn yr adroddiad datganiad ariannol ac, fel rhan o gymeradwyo cyfrifon blynyddol 2014/15, y dylid llofnodi'r Llythyrau Sylwadau.

PENDERFYNIAD I GYFARFOD MEWN SESIWN GAEEDIG

Cafodd cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill y cyhoedd eu heithrio o weddill y cyfarfod wedi ystyried natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, yn unol â gofynion Adran 1(2) y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960.

Ceir adroddiadau yn ymwneud â'r eitemau busnes yn y cofnodion hyn ar wefan yr Ymddiriedolaeth, www.ambulance.wales.nhs.uk